Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Chwefror 2018

Annwyl Dai,

Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad wedi bod yn cynnal ymchwiliad sylweddol i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Heddiw, cynhaliwyd ein sesiwn dystiolaeth ddiwethaf gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gan fod y pwnc hwn yn berthnasol i bortffolio eich Pwyllgor, dyma eich hysbysu ei bod yn fwriad gennym gyflwyno adroddiad erbyn y Pasg eleni. Byddaf yn sicrhau y cewch chi, ac aelodau eich Pwyllgor, gopi o'r adroddiad.

Ar 10 Ionawr, cawsom sesiwn dystiolaeth lafar gyda Samaritans Cymru. Yn ystod y sesiwn hon, ac yn nhystiolaeth ysgrifenedig Samaritans Cymru, cododd nifer o faterion mewn perthynas â hunanladdiad. Yn sgil y ffaith y byddwch yn cynnal ymchwiliad i atal hunanladdiad, dyma dynnu'ch sylw at y dystiolaeth hon gan ei bod yn berthnasol i'ch gwaith.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565